




Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

Crynodeb o Raglen Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenaethiaid Dros Dro

2018/19




**Datblygu
Arweinwyr**



Bydd y rhaglen hon ar gael i bob pennaeth newydd a phob pennaeth dros dro ledled Cymru. Bydd yn cael ei darparu gan y consortia rhanbarthol, mewn cydweithrediad agos â'r awdurdodau lleol a phartneriaid amrywiol.

Bydd y rhaglen hon yn cynnig opsiynau achredu ar y cyd â sefydliadau addysg uwch.

Cyfnod	Gweithgaredd	Dan arweiniad	Braslun	Cymorth
Cyfnod 1				
Cyn cychwyn yn y swydd	Trosglwyddo'r awenau: gan y pennaeth sy'n ymadael, ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r cydgysylltwyr rhanbarthol	Swyddog Cyswllt yr ALI a'r Cydgysylltydd Rhanbarthol	I drosglwyddo'r awenau'n effeithiol, bydd y pennaeth newydd yn cael copïau o fersiynau diweddaraf y dogfennau a ganlyn: » Adroddiad Hunanarfarnu » Cynllun Datblygu'r Ysgol » Datganiad Ariannol » Manylion a chofnodion y Corff Llywodraethu » Llawlyfr yr Ysgol a'i pholisïau statudol Yn ogystal ac os yw'n briodol: Bydd y pennaeth newydd yn cael gwybod am faterion diogelu neu faterion adnoddau dynol sy'n mynd rhagddynt.	
	Hunanadolygiad yn erbyn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth	Y Pennaeth Newydd ei Benodi a'r Pennaeth Dros Dro	Mae offeryn asesu electronig ar gael i wneud hyn.	
Cyfnod 2				
Blwyddyn 1	Rheoli a materion ymarferol	Swyddog Cyswllt yr ALI a'r Cydgysylltydd Rhanbarthol	Bydd yn darparu'r wybodaeth leol y bydd ei hangen ar y pennaeth newydd / dros dro. Gellir trefnu'r gweithgaredd mewn ffordd sy'n addas ar gyfer sefyllfa ac anghenion pob ALI. Er enghraifft, gall y naill ALI benderfynu cyflawni'r gweithgaredd ar ddiwrnod penodedig, a gall ALI arall benderfynu ei bod yn fwy priodol cynnal cyfres o gyfarfodydd rheolaidd.	Caiff Hyfforddwr Arweinyddiaeth ei glustnodi ar gyfer pob cyfranogwr.

	Diwrnod Datblygu Un: Llunio gweledigaeth gytûn a chynhwysol ar gyfer yr ysgol	Cydgysylltwyr Rhanbarthol <i>(gwahodd partneriaid allanol fel y bo'n briodol)</i>	Cynhelir Diwrnod Cenedlaethol ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Materion i'w trafod: » Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl » Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu » Arweinyddiaeth effeithiol » Gwerthuso a chynllunio	Bydd yr Hyfforddwyr Arweinyddiaeth yn cyflawni dyletswyddau ac yn cydgysylltu gweithgareddau rhwydwaith priodol yn ôl y gofyn. 
	Diwrnod Datblygu Dau: Datblygu eich ysgol fel sefydliad sy'n dysgu (cam 1)	Cydgysylltwyr Rhanbarthol a'r Tîm Cyflawni	Fe'i trefnir mewn nifer o leoliadau ledled Cymru. Materion i'w trafod: » Rheoli ac arwain newid » Dulliau arwain » Atebolrwydd » Cyfrifoldebau » Rhoi systemau ar waith i gasglu ac i gyfnwid gwybodaeth » Llesiant a chydnerthedd	
	Diwrnod Datblygu Tri: Datblygu eich ysgol fel sefydliad sy'n dysgu (cam 2)	Cydgysylltwyr Rhanbarthol a'r Tîm Cyflawni	Materion i'w trafod: » Defnyddio'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth » Addysgeg ♦ Mireinio Addysgu: O weledigaeth i ddarpariaeth i effaithDatblygu Dysgu: Polisi ar Waith; Dylanwadu ar Ddysgu: Diogelu Safonau, Lles a Chynnydd » Creu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio	
	Diwrnod Datblygu Pedwar: Mesur a gwerthuso effaith	Cydgysylltwyr Rhanbarthol a'r Tîm Cyflawni	Materion i'w trafod: » Defnyddio data » Meithrin y gallu i gyflawni mwy o newidiadau » Hyfforddi » Ymarfer myfyriol ar y flwyddyn gyntaf fel pennaeth	

Cyfnod 3

Blwyddyn 2	Myfyrio a datrys problemau	Cydgysylltwyr Rhanbarthol a'r Tîm Cyflawni	Bydd y cyfranogwyr yn rhannu â'r grŵp agwedd ar yr ymchwil weithredu y maent wedi'i rhoi ar waith yn ystod eu hail flwyddyn yn y swydd i wella eu hysgolion. Byddant yn cyflwyno adroddiad, i'w ddosbarthu, ynghylch y ffordd y maent yn meithrin gallu o fewn eu hysgolion.	
-----------------------	---	--	--	---

Mae dogfennau manwl y rhaglen yn ategu'r crynodeb hwn.

